

Cofnodion



Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: Dydd Mercher, 30 Mawrth 2022

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr C Ferris (Cadeirydd), P Hourahine, T Watkins, M Evans and C Townsend

G. Price, E. Bryant, F. Collins a T. Strange

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr M Whitcutt, J Clarke, K Thomas, G Giles and C Evans

1 Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Giles, y Cynghorydd Clarke, y Cynghorydd Whitcutt, y Cynghorydd Thomas a Leanne Rowlands.

2 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Derbyniwyd a chymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2022 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Materion yn Codi

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Evans at dudalen gyntaf y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf, lle roedd y pwyllgor wedi codi cynlluniau deiseb, ac roedd y swyddogion newydd dderbyn cyngor oddi wrth Lywodraeth Cymru ar y pryd. Nodwyd y byddai'r swyddogion yn derbyn rhagor o wybodaeth i'w hadrodd yng nghyfarfod mis Mawrth, a gofynnwyd a allai'r Pwyllgor gael y newyddion diweddaraf am yr wybodaeth honno gan Lywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y byddai'r eitem nesaf ar yr agenda yn ymdrin â'r pwynt hwnnw, ond dywedwyd nad oeddent wedi derbyn unrhyw ddiweddariad pellach o ran canllawiau. Roedd y cyfarfod diwethaf yn seiliedig ar y canllawiau drafft, ac ni fyddai'r canllawiau hynny ar gael tan ar ôl fis Mai. Dywedwyd felly fod y swyddogion yn mynd rhagddynt ar sail y canllawiau drafft i roi'r diweddariad ar lafar i'r Aelodau.

4 Diweddariad ynghylch Ymgynghori ar y Strategaeth Cyfranogiad (Er Gwybodaeth yn Unig)

Gareth Price – Pennaeth y Gyfraith a Safonau

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol drosolwg cryno i'r Pwyllgor ar y Strategaeth Cyfranogi a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft y strategaeth a gymeradwywyd gan y pwyllgor. Eglurodd y Swyddog ei fod wedi cael y newyddion diweddaraf gan reolwr y Gwasanaethau Democraataidd ac Etholiadol am yr ymgynghoriad cyhoeddus, na chafwyd ond 13-14 o ymatebion iddo drwy dudalen we'r Cyngor. O ran y strategaeth ei hun, nid oedd unrhyw sylwadau ynghylch cynnwys y strategaeth, ond yn hytrach sylwadau'n honni nad oedd y Cyngor yn gwrandao ar bryderon y cyhoedd ac ynghylch ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny.

Dywedwyd bod rhai sylwadau'n trafod hygyrchedd y wefan. Dywedwyd wrth yr aelodau fod mynediad i'r cyhoedd dan ystyriaeth o ran ceisiadau gwasanaeth cwsmeriaid, ond roedd a wnelo hyn â hygyrchedd y broses lywodraethu, a'r ffordd mae'n gweithio, sy'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth. Gan ei fod yn bolisi deinamig gydag amcanion i'w gweithredu, ymdrinnir â'r feirniadaeth a gafwyd yn rhan o'r cynllun gweithredu.

Oherwydd graddfeydd amser y cynllun, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth na fyddai cyfarfod arall yn cael ei gynnal rhwng mis Mawrth a mis Mai. Hysbyswyd y Pwyllgor na fyddai'r ddogfen ddrafft a welwyd gan yr Aelodau yn cael ei newid yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac y byddai'r ddogfen honno'n cael ei chyflwyno gerbron y Cyngor llawn i'w mabwysiadu ar 17 Mai. Byddai hynny wedi'i gynnwys ar raglen waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd newydd, er mwyn parhau i adolygu'r cynllun wrth weithredu'r strategaeth ymgysylltu.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth gyflwyniad diweddar i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd ac Etholiadol, a drafodai ofynion deddfwriaethol cynllun deisebau ffurfiol. Nodwyd bod gan y Cyngor broses, ond gan nad yw wedi'i chofnodi, nid oedd modd adrodd y canlyniadau'n ôl i'r pwyllgor. Tynnodd y swyddog sylw at y ffaith bod angen i'r Cyngor ffurfioli'r broses hon. Atgoffwyd yr aelodau fod hyn yn seiliedig ar ganllawiau drafft Llywodraeth Cymru, ac y byddent yn ceisio datblygu rhywbeth i'w gyflwyno gerbron y Cyngor ym mis Mai. Ystyriwyd system hidlo fel na fyddai'r Cyngor yn gorfod ymdrin â deisebau blinderus. Gellid gwneud hynny drwy ddilysu arweinwyr deisebau, ac ystyried a fyddai'r Cyngor am gael isafswm o lofnodion cyn ymateb i ddeisebau.

Trafodwyd gofynion ar gyfer yr hyn na fyddai'n cael ei ystyried yn ddeiseb ddilys, ee penderfyniadau cynllunio a thrwyddedu, cwynion yn gysylltiedig â'r cod ymddygiad ac apeliadau statudol, gan fod gan yr awdurdod eisoes brosesau ar gyfer y rheiny. Crybwyllwyd hefyd y gallai'r Cyngor ragnodi amserlen i ymateb i'r deisebau dan sylw.

Roedd y swyddog yn croesawu'r sylwadau a'r cwestiynau gan y Pwyllgor.

Cododd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn:

- Nododd y Cynghorydd Hourahine fod y deisebau y mae'n dod ar eu traws yn ei ward yn ymwneud yn bennaf â pharcio i breswylwyr a nododd y sylw olaf ynghylch yr amserlen; sef y dylai fod yn hanfodol i'r Cyngor gael amserlen ar gyfer ymdrin â deisebau. Gofynnodd yr Aelod i'r swyddog gadarnhau a oedd yn rhagweld y byddai parcio yn cael ei gynnwys o fewn y cynlluniau deiseb hyn.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau pe bai'r cynllun deisebau yn bodloni'r gofynion angenrheidiol, byddai'n cael ei ganiatáu.

- Mewn rhai achosion, ychwanegodd y Cynghorydd Hourahine mai ceisiadau ar gyfer darn byr o'r briffordd yw'r ceisiadau parcio fel arfer, a gofynnodd i'r Cyngor ystyried hynny wrth benderfynu ar y canllawiau ar gyfer cynlluniau deiseb.

Mewn ymateb i hyn, cadarnhaodd y swyddog na fyddai'n fater i'w ystyried gan y Cyngor, oherwydd hoffent gael safbwyntiau'r Pwyllgor ar hynny. Esboniwyd y gallai'r awdurdod strwythuro cynlluniau deisebau, fel y nodwyd, ond gofynnwyd am safbwyntiau'r Aelodau ynghylch syniadau fel isafswm y

llofnodion i ddilysu deiseb, er mwyn penderfynu beth fyddai'n teilyngu dadl yn eu tyb hwy.

Defnyddiwyd enghraifft, lle'r oedd gan ddeiseb ynghylch parcio i breswylwyr dros 20 o lofnodion preswylwyr. Gellid ystyried bod hynny'n ddilys, a byddai'n cael ei chyfeirio i sylw'r Pennaeth Gwasanaeth ar Aelod Cabinet perthnasol er mwyn penderfynu yn ei chylch. Gallai'r Cyngor gofnodi ei fod wedi derbyn y ddeiseb yn y cynllun a chofnodi sut a phryd yr ymatebwyd iddi. Er enghraifft, yn achos deiseb ar lefel dipyn yn uwch, pe bai cyfyngiadau traffig yn effeithio ar gymuned ehangach, a bod y ddeiseb honno'n cynnwys cannoedd o lofnodion; gallai fod yn fwy priodol i'w thrafod mewn pwyllgor craffu.

Byddai'r cynllun yn anelu i ffurfioli'r broses ddeisebau a rhoi mwy o sylwedd iddi; dywedodd y swyddog yr hoffai gael safbwyntiau'r pwyllgor, ac a fyddai'r aelodau'n tybio y byddai'n briodol cynnwys craffu.

- Awgrymodd y Cynghorydd M.Evans y dylai'r Cyngor adolygu canrannau'r strydoedd sy'n rhoi mewnbwn i'r ddeiseb. Er enghraifft, gellid pennu 40% o'r stryd fel gofyniad isafswm yn hytrach na chael nifer penodol o lofnodion. Cytunai'r Aelod fod angen i'r Cyngor ymgysylltu â'r cyhoedd ac aelodau er mwyn iddo fod yn ymwybodol o'r deisebau sy'n cael eu rhannu o fewn eu wardiau. Cytunai'r Aelod y byddai'n bwysig i'r swyddogaeth graffu gael rôl yn y drafodaeth yn achos deisebau mwy. Soniwyd bod preswylwyr yn teimlo'n rhwystredig tuag at y Cyngor ac yn teimlo nad oedd eu safbwyntiau'n cael eu clywed. Pwysleisiodd yr Aelod, os oedd nifer sylweddol o bobl wedi llofnodi'r ddeiseb, fod ganddynt hawl i gael gwrandawriad gan y pwyllgor craffu, gan y byddai hynny'n iach o safbwynt democratiaeth.
- O ran nifer y llofnodion, dywedodd y Cynghorydd T. Watkins y dylai hynny ddibynnu ar bwnc y ddeiseb, a dylai'r prif ddeisebydd dderbyn esboniad uniongyrchol pam na fyddai ei ddeiseb yn destun trafodaeth. Aeth yr Aelod ymlaen i gytuno y dylid cael amserlen, ac y dylai'r pwyllgor wahodd deisebwyr yn hytrach na rhoi caniatâd diodyn i'r preswylwyr fynd gerbron y pwyllgor craffu. Ar ôl pennu amserlen, dylent wedyn roi adborth i'r deisebydd a'r cynghorydd lleol, ac i'r Aelod Cabinet perthnasol.

O ran y pwyntiau a wnaed gan yr Aelodau, eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau mai'r bwriad fyddai datblygu proses y gallai'r Cyngor ei chyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 17 Mai 2022 i'w fabwysiadu i'r dyfodol. Byddai'r cynllun deisebau yn rhan annatod o strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd, a dywedwyd y gellid bod angen profi a gadael i'r cynllun fethu i ddechrau, cyn ei wella a'i fireinio.

Cydnabuwyd y byddai angen hysbysu cynghorwyr y ward ynghylch y deisebau. Er enghraifft, gallai deiseb lai gael ei chyflwyno i'r Aelod Cabinet, a deiseb fwy gael ei chyflwyno i'r pwyllgor craffu. Os oedd y mater yn ymwneud yn benodol â'r ward, byddai aelodau ward yn cael gwahoddiad ac yn derbyn gwybodaeth, o leiaf, a gallai hynny gael ei ymgorffori'n rhan o'r cynllun.

Awgrymodd y swyddog y gellid tri y mater yn debyg i gwestiynau i'r Cyngor; lle byddant yn ystyried, a'r Swyddog Monitro a'r Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd, a yw'n ddeiseb briodol yn nhermau'r canllawiau/rheolau. Os felly, gellid ei huwchgyfeirio'n unol â'r broses.

Dywedodd y Pwyllgor y byddai'r swyddogion yn cymryd sylwadau'r pwyllgor i ystyriaeth ac yn cyflwyno drafft cyntaf ar 17 Mai 2022 yn rhan o'r strategaeth ehangach ar gyfranogiad. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth na fyddai'n dymuno cymhlethu'r cynllun yn ormodol.

- Awgrymodd y Cynghorydd M. Evans y dylid defnyddio canrannau wrth ystyried a ddylid cynnal trafodaeth ai peidio. Er enghraifft, os nad oedd mwyafrif helaeth yn cefnogi'r ddeiseb, roedd hynny'n golygu gwastraffu amser swyddogion. Cyfeiriodd yr Aelod at y broses arolygon yr arferai'r Cyngor ei defnyddio, lle pe bai canran benodol o'r stryd yn pleidleisio yna'n amlwg gallai fod yn breswlydd penodol nad yw o bosibl yn hoffi'r cyngor sy'n ceisio tro ar ôl tro i gael ei ddeiseb wedi'i llofnodi.

Holodd yr Aelod hefyd pam bod y cynllun deisebau wedi cael ei gyflwyno gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mai, gan y byddai llawer o gynghorwyr newydd, ac roedd hi'n tybio mai cyfarfod ffurfiol oedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Dywedodd yr Aelod y byddai'r cynghorwyr newydd yn cael eu llethu gan wybodaeth newydd. Dywedwyd bod y pwyllgor wedi derbyn y cynllun drafft o gyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac roedd ansicrwydd felly pam y byddai'r cynllun yn dychwelyd ym mis Mehefin.

Mewn ymateb i hyn, eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth nad oedd y sefyllfa'n ddelfrydol, a byddai'n disgwyl i gynlluniau deiseb a'r strategaeth cyfranogiad fod ar agenda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Fodd bynnag, dywedodd fod angen mireinio'r cynllun, ac yn ôl y gyfraith, roedd yn rhaid i'r Cyngor sefydlu cynllun deisebau newydd, yn yr un modd ag yr oedd angen strategaeth ar gyfer cyfranogiad. Gan hynny, mae angen i'r cynllun gael ei fabwysiadu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fel bo modd ei fabwysiadu a'i freinio gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fel bod rhywbeth wedi'i sefydlu erbyn mis Mai.

O ran y farn nad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol oedd y lleoliad i drafod y materion dan sylw, dywedodd y Swyddog, yn sgil y ddeddfwriaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor ei mabwysiadu, fod hynny'n anochel gan fod gan y Cyngor nifer o faterion cadw tŷ i fynd i'r afael â nhw. Eglurwyd mai 17 Mai yw'r cyfle cynharaf y gallai swyddogion gyflwyno'r cynllun gerbron y Cyngor llawn.

- Nododd y Cynghorydd M. Evans ei fod yn ymwybodol o hynny, ond dywedodd nad oedd y Cyngor eto wedi derbyn y canllawiau drafft gan Lywodraeth Cymru, a dywedodd na ddylent fod yn gwneud penderfyniadau ar sail deddfwriaeth ddrafft.

Eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth yr Aelodau Pwyllgor nad y ddeddfwriaeth, ond y canllawiau, a oedd ar ffurf drafft, a bod y ddeddfwriaeth eisoes wedi'i phasio.

- Aeth y Cynghorydd M. Evans yn ei flaen i holi a oedd y swyddogion yn gwybod pryd y byddai'r canllawiau terfynol yn cael eu derbyn ym mis Mehefin.

Mewn ymatebi i hyn, dywedodd y Swyddog Arweiniol fod y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 22 Mai ac nad oedd yn disgwyl y canllawiau tan fis Mehefin. Cydnabuwyd nad yw'r amseru'n ddelfrydol, ond dywedwyd bod yn rhaid i'r Cyngor fabwysiadu cynllun sylfaenol sy'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, ac y gallai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei fireinio ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i fabwysiadu. Byddai hynny'n golygu bod gan y Cyngor rywbeth wedi'i fabwysiadu i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

- Mynegodd y Cynghorydd Hourahine bryder y byddai'r broses yn troi'n rhy ficrocrataidd. Ystyriwyd na fyddai'r rhan fwyaf o breswylwyr galluog yn ei chael hi'n anodd mynegi eu barn, ond mae gan yr Aelodau ddyletswydd i gyflwyno barn pobl nad ydynt yn gallu gwneud hynny eu hunain. Gan hynny,

gofynnodd yr Aelod am gadarnhad ynghylch sut y gallai'r cynghorwyr roi cymorth i'r preswylwyr hynny na allant eu mynegi eu hunain yn glir, a dywedodd y byddai hyn yn rhywbeth y dylai'r Cyngor ei ystyried. Er enghraifft, rhai a allai fod â phroblemau iechyd meddwl.

Cydnabu'r Pennaeth Gwasanaeth fod y mater hwnnw o natur ehangach, ond mai ffocws cyfarfod y pwyllgor oedd sut i ymdrin â deisebau wrth iddynt ddod i mewn, a dywedodd y byddai Swyddogion yn ystyried materion cydraddoldeb yn y cam lle byddai preswylwyr yn cyflwyno sylwadau.

Hysbyswyd yr Aelodau y byddai rhywbeth newydd yn cael ei drafod i fynd i'r afael â dyletswyddau llesiant ar gyfer presenoldeb y cyhoedd a sicrhawyd yr Aelod y byddai'r mater sylwadau'n cael ei drafod ar wahân.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai cyfarfodydd hybrid yn cael eu cynnal ar ôl mis Mai, ac i breswylwyr a allai gael eu hallgau'n ddigidol, byddai cyfleuster ar gael i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

- Cafwyd trafodaeth ddilynol ac awgrymodd y Cynghorydd Hourahine y gallai'r Cyngor gyfeirio deisebwyr i'r polisi cydraddoldeb, fel canllaw, a'i gynnwys fel troednodyn ar waelod cynlluniau deiseb.

Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol y gallai'r swyddogion wneud hynny, gan y byddai prif ddeisebwyr yn cael gwybod am hynny, ac y byddai dolen yn cael ei chynnwys er rhwyddineb.

5 **Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) (Er Gwybodaeth yn Unig)**

Gareth Price – Pennaeth y Gyfraith a Safonau

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cael ei gynnwys ar yr agenda er gwybodaeth yn unig, ond ei fod yn cyffwrdd ar bwynt y Cynghorydd M. Evans ynghylch cyflwyno'r adroddiad i'w drafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth mai dyma oedd yr adroddiad terfynol ac na chafwyd unrhyw newidiadau o bwys iddo ers adroddiad drafft mis Tachwedd 2021, o ran lwfansau sylfaenol ac ail-bennu cyflogau uwch.

O ran y Cyngor Llawn ar 17 Mai 2022, byddai gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Lwfansau'r Aelodau yn seiliedig ar y cyflogau diwygiedig, ac ar gyfer materion cadw tŷ, mae'n rhaid i'r swyddogion gyflwyno'r adroddiad ym mis Mai i'w fabwysiadu gan y Cyngor newydd.

Ar ôl i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol wneud penodiadau o ran Aelodau'r Cabinet ac Arweinwyr y Pleidiau, byddai cynllun lwfansau cyhoeddedig yr aelodau yn gosod eu henwau yn erbyn yr atodlenni cyflogau uwch.

Cydnabu'r aelodau bwyntiau'r swyddog ynghylch y dogfennau.

6 **Cynllun Dirprwyo Swyddogion Newydd (Gwybodaeth yn Unig)**

Gareth Price – Pennaeth y Gyfraith a Safonau

Elizabeth Bryant – Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Cyfreithiol

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth drosolwg cryno i'r Pwyllgor ac ailbwysleisio mai gwaith ar y gweill yw'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion newydd, ac y byddent yn mynd ati i'w fireinio a'i gwblhau'n derfynol. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau o bwys i'r trefniadau dirprwyo cyfredol, ond cafodd swyddogaethau penodol eu hailddyrannu i'r Penaethiaid Gwasanaeth newydd, ar ôl ad-drefnu'r uwch reolwyr ac ailalinio'r gwasanaethau.

Er enghraifft, roedd Diogelu'r Cyhoedd gynt wedi'i gynnwys o dan Y Gyfraith a Safonau, ac roedd tacsis/trwyddedu a'r holl is-adrannau iechyd yr amgylchedd wedi'u cynnwys o dan Bennaeth y Gyfraith a Safonau, ond roedd y swyddogaethau hynny bellach yn cael eu trosglwyddo i bennaeth newydd, sef Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd. Byddai'n sicrhau bod y swyddogion dirprwyol oddi mewn i'r maes gwasanaeth cywir, a dywedodd bod y gwaith yn llawer mwy cymhleth nag yr oedd yn ymddangos gan fod y Cyngor yn gorfod datgyfuno rhai o'r gwasanaethau. Rhoddodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau glod i Bennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Cyfreithiol, Elizabeth Bryant, a wnaeth lawer o'r gwaith ar hynny.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai gwaith ar y gweill oedd hyn, ac mai'r bwriad fyddai gorffen rhwng nawr a mis Mai i'r Aelodau gymeradwyo'r Cynllun ar 17 Mai.

Roedd y swyddogion yn croesawu unrhyw ymholiadau gan y Pwyllgor.

Cododd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn:

- Holodd y Cynghorydd Watkins sut y byddai'r cynllun dirprwyo yn effeithio ar y pwyllgorau craffu.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau nad oes a wnelo'r cynllun dirprwyo swyddogion ond â phenderfyniadau a wneir ar lefel swyddog. Mewn perthynas â'r pwyllgorau craffu; byddai'r rhan fwyaf o hynny'n dibynnu ar gyfansoddiad y Cyngor newydd a gaiff ei ethol.

Ar hyn o bryd, yr oedd dau Bwyllgor Craffu Perfformiad yn craffu ar gynlluniau gwasanaeth, ac roeddent wedi'u seilio ar yr hen Gyfarwyddiaethau Pobl a Lle/Corfforaethol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod pedair cyfarwyddiaeth gorfforaethol ar hyn o bryd, a bod gwasanaethau wedi'u grwpio'n wahanol. Yn ogystal â hynny, roedd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid yn datblygu proses hunanasesu perfformiad newydd.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai angen i'r swyddogion edrych ar hynny gyda'r cadeiryddion craffu; a fyddai'n ddarn mwy o waith yn nhermau perfformiad newydd.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at bwyntiau tri a saith yn yr is-adrannau Cyfrifoldeb Adfywio i wneud ceisiadau am gyllid Ewropeaidd, a gofynnodd a oedd hyn yn berthnasol bellach.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y gallent hepgor y cyfeiriad at 'Ewropeaidd', gan y byddai'r Cyngor yn dal i dderbyn cyllid grant allanol, cyllid codi'r gwastad a chyllid grant mewnol. Dywedwyd wrth yr Aelod y byddai hynny'n cael ei unioni'n rhan o'r broses fireinio.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol hefyd fod y Penaethiaid Gwasanaeth yn perffeithio agweddau eraill, fel y broses gynllunio; ar hyn o bryd roedd y ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor gan fod asedau eiddo a'r asedau corfforaethol o dan yr un Pennaeth Gwasanaeth. Tynnodd y swyddog sylw at y gwrthdaro a geir wrth ddirprwyo, o ran penderfynu eu ceisiadau cynllunio eu hunain. Yn sgil symud eiddo ac asedau o dan Pobl, Polisi a Thrawsnewid, roedd angen i'r swyddogion addasu'r ddirprwyaeth honno er

mwyn iddi gael ei chynnwys mewn maes gwasanaeth gwahanol i ddiben gwell.

- Hyd y deallai, dywedodd y Cynghorydd Hourahaine fod meysydd gwyddonol ac academiaidd yn dal i fod yn gymwys i dderbyn cyllid Ewropeaidd, a nododd ei fod yn ansicr sut y byddai'n effeithio ar y Cyngor, ond awgrymodd y dylid newid geiriad y ddogfen, yn hytrach na'i dynnu'n ôl yn unig.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth, yn achos y cynllun dirprwyo, y byddai'n amhriodol tynnu pob cyfeiriad at Ewrop yn ei ôl, gan fod hynny'n berthnasol i gyllid grant allanol; gallai fod wedi cynnwys yr UE, ond dywedodd y gallai grantiau eraill ddod i'r amlwg.

7 Diweddariad gan yr Aelod Llywyddol/Cadeirydd y Cyngor

Gareth Price – Pennaeth y Gyfraith a Safonau

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth drosolwg cryno i'r Pwyllgor ac esboniodd fod yr adroddiad yn rhoi manylion pellach am drefniadau, rolau a chyfrifoldebau'r Aelod Llywyddol. Penderfynir ar benodiadau Cadeirydd y Cyngor/Yr Aelod Llywyddol a'r Is-gadeirydd/Y Dirprwy Aelod Llywyddol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ar 17 Mai 2022. Gofynnir i'r Cyngor hefyd gymeradwyo'r newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad yn sgil mabwysiadu rôl newydd yr Aelod Llywyddol.

Rhoddodd y Swyddog fwy o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r broses yn gweithio'n ymarferol; ceir ddisgrifiad diwygiedig o rôl yr Aelod Llywyddol a'r Is-Gadeirydd yn y ddogfen. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan 76% o gynghorau yng Nghymru Aelod Llywyddol yn ôl yr adroddiad. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cynghorau eisoes wedi gwneud y penderfyniad hwnnw, ond mai'r prif bwynt oedd bod penodiad yr Aelod Llywyddol yn fater i'r Cyngor llawn, ac mai dyna fyddai'r eitem gyntaf i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mai.

Aeth y Pennaeth Gwasanaeth ati i roi esboniad manwl o'r broses o enwebu a phenodi Aelod Llywyddol yn y Cyngor, a dywedodd y byddai'r rôl yn destun adolygiad bob blwyddyn, ac na fyddai dim i atal Cadeirydd y Cyngor rhag cael ei ail-ethol. Amlygodd hefyd y gwahaniaeth rhwng y Cadeirydd a rôl seremonïol y Maer; nad yw'r Maer ond yn cynrychioli'r Cyngor fel prif ddinesydd mewn digwyddiadau mewnol ac allanol.

Cyfeiriodd y Swyddog at arferion eraill y Cyngor, drwy gyfundeb partiön y Cyngor; pe bai'r Aelod Llywyddol yn cael ei benodi o'r naill grŵp, gallai'r grŵp arall benodi'r Dirprwy Aelod Llywyddol. Dywedwyd y gallai hyn fod yn rhywbeth yr hoffai'r grwpiau ei ystyried ar ôl mis Mai 2022.

Roedd y swyddog yn croesawu unrhyw sylwadau a chwestiynau gan y pwyllgor.

Cododd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn:

- Mynegodd y Cynghorydd M. Evans bryder y gallai cyfarfod mis Mai fod yn hir i'r Aelodau a oedd newydd eu hethol. Gofynnodd yr Aelod a fyddai gan yr Aelod Llywyddol bleidlais fwrw.

Mewn ymateb i hyn, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai gan yr Aelod Llywyddol ail bleidlais a phleidlais fwrw, a dywedodd fod hyn wedi'i nodi yn yr adroddiad, ond y byddai angen diwygio rheolau sefydlog y Cyngor yn sgil y newid. Byddai gan yr Aelod Llywyddol yr un hawliau â'r Maer, a gallai'r sawl a oedd yn cadeirio'r cyfarfodydd alw'r bleidlais.

- Holodd y Cadeirydd a fyddai'r Maer cyfredol, y Cynghorydd David Williams, yn agor y cyfarfod fel Maer.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol y byddai hynny'n dibynnu a fyddai'r Cynghorydd Williams yn cael ei ail-ethol.

A phe bai'n cael ei ail-ethol, byddai'r Maer yn agor y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a'r eitem gyntaf ar yr agenda fyddai enwebu'r Aelod Llywyddol, ac ar ôl cael ei benodi byddai'r unigolyn hwnnw'n cadeirio gweddill y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

- Holodd y Cadeirydd a fyddai'n debygol y byddai'n rhaid cynnal etholiadau o fewn y pleidiau i bleidleisio dros Aelodau fel siaradwyr.

Dywedodd y Swyddog na allai wneud sylwadau ynghylch hynny, ond y byddai'r enwebiadau'n cael eu derbyn yn y Cyngor. pe bai mwy nag un unigolyn, byddai pleidlais yn cael ei chynnal a'r sawl a fyddai'n ennill y mwyaf o bleidleisiau'n cael ei benodi. Nid mater i'r Pennaeth Gwasanaeth fyddai gweithrediad hynny o fewn y grwpiau.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor am eu mewnbwn ac i'r swyddogion am eu hamser.

8 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dyddiad posibl ar gyfer cyfarfod ad-hoc ym mis Mehefin
Dydd Iau 16 Mehefin 10am – 12pm

9 **Digwyddiad Byw**

[Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – 30 Mawrth 2022 - YouTube](#)

Daeth y cyfarfod I ben am 10.59 am